Cyhoeddwr y Mis: William	**Organydd: Ceris**	
7 Rhagfyr 2.30yp	Oedfa Gymun: Gweinidog	Bwrdd y Cymun: Mervyn a Sue
14 Rhagfyr 2.30yp	Oedfa'r Garol a'r Gair **ym Methel**	
21 Rhagfyr 2.30yb	Oedfa Nadolig: Gweinidog	
25 Rhagfyr 8.00yb	Oedfa Gymun Dydd Nadolig	
28 Rhagfyr 10.30yb	Oedfa Diwedd Blwyddyn: Gweinidog	
Cyhoeddwr y Mis: Sandra	**Organydd: Mair**	
4 Ionawr 2.30yp	Oedfa Gymun Y Parchedig Peter Thomas	Bwrdd y Cymun: Rhiannon
11 Ionawr 10.30yb	Oedfa Deuluol yr Anrhegion Y Parchedig Judith Morris	
18 Ionawr 2.30yp	Oedfa Apêl Chad pan fyddwn yn croesawu Dr Menna Machreth, BMS i siarad am yr apêl.	Gofal y Te: Rhiannon
25 Ionawr 2.30yp	Oedfa Ffarwel i'r Gweinidog	

I'ch Dyddiadur

10 Rhagfyr: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys am 12.00yp.
18 Rhagfyr: Plygain dan nawdd Cymdeithas y Penrhyn yn Eglwys St Ioan am 7.30yh.
19 Rhagfyr: Oedfa Nadolig Ysgol Penweddig ym Methel am 10.30yb
30 Rhagfyr: Cylch Darllen y Beibl am 2.00yp
5 Ionawr: Cinio Cymorth Cristnogol yn Eglwys y Drindod Sanctaidd: 12.00-1.30yp
31 Ionawr: Oedfa Ddwyieithog o ddiolchgarwch am wasanaeth y Parchg Peter M Thomas ac i neilltuo y Parchg Judith Morris yn ysgrifennydd Cyffredinol newydd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Methel am 2.00yp

LLOFFION

Llongyfarchiadau i Owen Jac ar gael ei ddewis i ymddangos yn un o raglenni cyfres newydd 'Y Gwyll'.

Rhaglenni Cymanfa Ganu: Mae rhaglenni 2015 ar gael gan Ceris – pris £1.35.

Cinio Cymunedol: Diolch i Mervyn a Ella am gydsynio i gydlynu trefniadau'r cinio cymunedol ar ran Horeb.

Cyfraniadau: Er mwyn cydymffurfio ag angehnion awdit, byddwn yn cau'r llyfrau ar 31 Rhagfyr 2014 ac felly gofynnwn yn garedig i bob cyfraniad fod mewn llaw erbyn 21 Rhagfyr fan bellaf. Bydd unrhyw gyfraniad ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2015. Diolch yn fawr iawn.

Gair o Ddiolch: Ar ddiwedd mis Rhagfyr bydd fy nghyfnod fel eich gweinidog yn dod i ben. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am bob cefnogaeth ac am y fraint o gael gwasanaethu'r ddwy eglwys, Bethel a Horeb. Diolch am y cyfle i cyd-weithio'n hwylus ac am bob arwydd o garedigrwydd. Mawr yw fy ngwerthfawrogiad.

YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 71
RHAGFYR 2014

Mae'n dymor yr Adfent, sef y tymor o baratoi ar gyfer y Nadolig ac yn ystod yr wythnosau nesaf daw cyfle eleni eto i feddwl am ddyfodiad Duw i'n byd drwy ganu carolau, gwrando a darllen yr hanesion yn y Testament Newydd am eni Crist, yn ogystal â bwrw ati i gyflawni'r holl waith ymarferol sydd angen ei wneud ar gyfer dathlu Dydd Nadolig. Oes, mae 'na lawer o bethau i'w cyflawni a'r pwyslais ar y gwneud wrth i'r diwrnod mawr agosáu! Ac er mai dyma un o'r adegau mwyaf llawen yng nghalendr yr Eglwys gwyddom mai adeg ydyw sy'n gallu arwain at flinder corfforol a straen meddyliol ynghanol yr holl brysurdeb.

Ond mae tymor yr Adfent yn ei ystyr orau yn rhoi perspectif a fframwaith pwysicach na'r rhuthr a'r gwneud di-ddiwedd. Yn hytrach mae'n gyfnod i ymdawelu a throi ein golygon draw i gyfeiriad Bethlehem i sefyll, syllu a synnu er mwyn cael profi o ryfeddod dyfodiad Duw i'n byd. Cawn wahoddiad i fynd ar daith arbennig i Fethlehem a chael cynnig y rhodd o'r newydd, y rhodd o Waredwr a rhoi iddo'r cyfle i deyrnasu ar ein bywydau. Mae'r cyfnewid anrhegion a ddigwydd rhwng teulu, cyfeillion a chymdogion ond yn adlewyrchiad o'r rhodd a gyflwynwyd inni ym mherson Iesu Grist. Felly, boed inni gofleidio yr anrheg bwysicaf oll mewn ysbryd o ddiolchgarwch gan agor ein calonnau iddo a byw yn ei oleuni. O wneud hynny, bydd gwawr ei deyrnasiad o heddwch a chyfiawnder ychydig yn nes atom mewn byd sydd mewn angen dybryd.

O ddirgelwch mawr duwioldeb,
Duw'n natur dyn;
Tad a Brenin tragwyddoldeb
yn natur dyn!
o holl ryfeddodau'r nefoedd
dyma'r mwyaf ei ddyfnderoedd
testun mawr diderfyn oesoedd,
Duw'n natur dyn!

Gwilym Hiraethog

Pob bendith gyda'r paratoadau yn ystod gweddill Tymor yr Adfent.
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW 01970 820939 berwynfa@btinternet.com